



BioBlitz Penglais

Dydd Sadwrn 11 Mai 2013

Rhaglen o Weithgareddau

00:00 Dal Gwyfynod Ganol Nos

(Arweinir gan Dr John Warren)

Bydd lampau anwedd arian byw yn cael eu gosod o amgylch gwahanol leoliadau ar y campws yn datgelu eu cynnwys nosol i unrhyw un sy'n barod i ymuno â ni er mwyn helpu rhoi'r BioBlitz ar waith.

03:30 Canfod Ystumod cyn Brecwast

(Arweinir gan Annette Smith & Grŵp Ystumod Gogledd Ceredigion)

Ymunwch â ni wrth i'r ystumod ddod adref i glwydo wrth i'r nos droi'n ddydd, byddwn yn brysur â'n synwryddion ystumod, i adnabod y gwahanol ystumod wrth eu galwadau sain uwch.

05:00 Côr y Wawr

(Arweinir gan Katy Peat a Jim Vale)

Bydd hi'n gwawrio am 5.25 y bore a bydd y codwyr cynnar eisoes wedi deffro i glywed pa rywogaethau o adar sy'n weithgar yn yr oriau mân gan hawlio eu tiriogaeth ar gyfer y diwrnod.

08:00 Dal Mamaliaid Bach

(Arweinir gan Dr Joe Jackson a Gary Hillier)

Un arall ar gyfer y bore godwyr; bydd trapiau addas sydd wedi cael eu cuddio o amgylch y campws yn cael eu gwagio yn gynnar y bore, fel y gall unrhyw lygod a llygod y gwair gael eu nodi a'u rhyddhau yn gyflym gan achosi'r gofid lleiaf posibl.

09:00 Ymlusgiaid ac Amffibiaid

(Arweinir gan Gary Hillier a Fred Slater)

Cyn iddi boethi, byddwn yn chwilio yn y manau tawel am frogaod, llyffantod, tywysogion golygus a nadroedd eraill.

10:00 Saffari Bwystfilod Bach 1

(Arweinir gan Dr Roger Santer, Leigh Denyer a Gwen Potter)

Byddwn yn chwilota mewn pentyrrau coed a chorneli angof eraill o amgylch y campws i ddod o hyd i: chwilod, nadroedd miltroed, pryfed lludw, pryfed cop, gw lithenni, malwod a llu o drychfilod eraill. Bydd y plant wrth eu bodd gyda'r gweithgaredd hwn.

10:00 Dal Gwyfynod yn y Bore

(Arweinir gan Peter Walters-Davies, Grŵp Gwyfynod Ceredigion)

Y bore canlynol; bydd yr arbenigwr lleol Peter Walters-Davies yn arwain grŵp er mwyn adnabod a chofnodi'r gwyfynod a ddaliwyd mewn cyfres o drapiau ar hyd y campws yn ystod y nos.

10:00 Taith yr Adar 1

(Arweinir gan Ian Scott, Jim Vale a Ben Sampson)

Mae Campws Penglais yn cynnwys yn cynnwys nifer o gynefinoedd gwahanol, ymunwch â ni am 10 y bore i weld pa adar sy'n byw yn y coetiroedd, caeau a'r parciau. Dewch i wella'ch sgiliau adnabod gyda help triawd o arbenigwyr adar lleol.

11:00 Cyfrinachau Cudd y Trofannau 1

(Arweinir gan Yr Athro Barry Thomas a Pat Causton)

Mae tŷ trofannol y brifysgol yn cynnwys rhai trysorau go iawn. Dewch draw i ddarganfod y coed coco, pinafal a phlanhigion y piseri.

11:00 Rhwydo'r Pyllau a Samplu Nentydd 1

(Arweinir gan Drs Katy Peat, John Gee ac Eurig Howells)

Mwy o hwy! ar gyfer y plant; mae nifer o byllau a nentydd ar draws y campws. Ond pwy a wŷr pa fywyd gwyllt sy'n cuddio yn eu dyfroedd? Mae hyd yn oed pwll yn y tŷ gwydr trofannol!

11:00 Acwariwm

(Arweinir gan Drs Pip Moore a David Wilcockson)

Dewch i ymweld ag acwariwm IBERS gyda'n harbenigwyr preswyl. Cewch weld beth sy'n byw yn y môr gerllaw a rhai pysgod trofannol sydd ag arferion rhyfedd iawn.

11:00 Planhigion gwyllt a Chwyn Chwaethus 1

(Arweinir gan Sam Thomas ac Andy Jones)

Bydd y botanegwyr brwdfrydig Sam ag Andy yn eich tywys chi drwy'r coetiroedd a'r corneli llawn chwyn i'ch helpu i ddod o hyd i'r tegeirian gwyllt a'r rhyfeddodau eraill ar gampws Penglais.

12:00 Parciau a Gerddi - Trysorau Garddwriaethol 1

(Arweinir gan John Corfield, Paul Evans a Dr Andrew Agnew)

Dros ddegawdau lawer, mae staff tir ymroddedig wedi plannu lluo o goed a llwyni egsotig o gwmpas tiroedd y brifysgol. Dyma eich cyfle chi i fwynhau llafur eu gwaith caled.

12:00 Canfod Cen a Phori 'r Bryoffyttau 1

(Arweinir gan Steve Chambers a Margaret Howells)

Yn aml mae mwsoglau, llysiâu'r afu a chen yn cael eu hanwybyddu, ond nid felly heddiw. Manteisiwch ar y cyfle i ddysgu mwy am yr organebau diddorol a darganfod y lleoedd anghyffredin lle maen nhw'n tyfu.

Bwyd BioBlitz (Joan Rowlands)

Amser am egwyl? Dewch i flasau danteithion caffi Canolfan Y Celfyddydau ar unrhyw adeg yn ystod y dydd. Cewch ganfod yn union pa rywogaethau sydd yn eich brechdan, salad neu hyd yn oed baned o goffi.

13:00 Ysbïo ar y Swyddfa a'r Mannau Dan Do

(Arweinir gan Pip Drs Moore a John Warren)

Byddwn yn aml yn harddu ein lleoliadau gwaith a'u gwneud yn fwy cartrefol drwy osod planhigion yn ein manau swyddfa, ond pa unigolyn, adran, ag athrofa sydd wedi casglu'r nifer fwyaf o rywogaethau amrywiol? Dewch i glywed canlyniad arolwg BioBlitz y swyddfeydd!

14:00 Microbau a'r Creaduriaid Bychan

(Arweinir gan Drs Arwyn Edwards a Neil McEwan)

Y mwyaf bioamrywiol o'r holl organebau sy'n byw ar y campws a grŵp o rywogaethau nad yw BioBlitzwyr fel arfer yn eu hystyried. Eich cyfle i ddarganfod beth mae pawb arall yn methu!

14:00 Parasitiaid

(Arweinig gan Dr Jo Hamilton)

Nid un ar gyfer pobl â stumog wan. Bydd parasiteolegwyr IBERS yn eich helpu i weld beth sy'n cropian ar greaduriaid eraill y campws, a hyd yn oed beth sy'n byw yn eu carthion.

14:00 Hwyl yn y Ffwng

(Arweinig gan Dr Gary Easton)

Mae braidd yn gynnar yn y flwyddyn ar gyfer llawer o fadarch, ond mae pydredd pren, rhwd, a ffyngau cromfachau, yn siŵr o gyfrannu at ein rhestr o rywogaethau amrywiol.

14:00 Saffari Bwystfilod Bach 2

(Arweinig gan Dr Roger Santer, Leigh Denyer a Gwen Potter)

Byddwn yn chwilota mewn pentyrtau coed a chorneli angof eraill o amgylch y campws i ddod o hyd i: chwilod, nadroedd miltroed, pryfed lludw, pryfed cop, gwlythenni, malwod a llu o drychfilod eraill. Bydd y plant wrth eu bodd gyda'r gweithgaredd hwn.

15:00 Taith yr Adar 2

(Arweinig gan Ben Sampson, Dr Rupert Marshall ac Ian Scott)

Mae Campws Penglais yn cynnwys yn cynnwys nifer o gynefinoedd gwahanol, ymunwch â ni am 3 y prynhawn i weld pa adar sy'n byw yn y coetiroedd, caeau a'r parciau. Dewch i wella'ch sgiliau adnabod gyda help triawd o arbenigwyr adar lleol.

15:00 Cyfrinachau Cudd y Trofannau 12

(Arweinig gan Yr Athro Barry Thomas a Pat Causton)

Mae tŷ trofannol y brifysgol yn cynnwys rhai trysorau go iawn. Dewch draw i ddarganfod y coed coco, pinafal a phlanhigion y piseri.

15:00 Rhwydo'r Pyllau a Samplu Nentydd 2

(Arweinig gan Drs Katy Peat, John Gee ac Eurig Howells)

Mwy o hwyl ar gyfer y plant; mae nifer o byllau a nentydd ar draws y campws. Ond pwy a ŵyr pa fywyd gwyllt sy'n cuddio yn eu dyfroedd? Mae hyd yn oed pwll yn y tŷ gwydr trofannol!

16:00 Planhigion gwyllt a Chwyn Chwaethus 2

(Arweinig gan Sam Thomas ac Andy Jones)

Bydd y botanegwyr brwdfrydig Sam ag Andy yn eich tywys chi drwy'r coetiroedd a'r corneli llawn chwyn i'ch helpu i ddod o hyd i'r tegeirian gwyllt a'r rhyfeddodau eraill ar gampws Penglais.

16:00 Parciau a Gerddi - Trysorau Garddwriaethol 2

(Arweinig gan John Corfield, Paul Evans a Dr Andrew Agnew)

Dros ddegawdau lawer, mae staff tir ymroddedig wedi plannu llu o goed a llwyni egsotig o gwmpas tiroedd y brifysgol. Dyma eich cyfle chi i fwynhau llafur eu gwaith caled.

16:00 Canfod Cen a Phori 'r Bryoffytau 2

(Arweinig gan Steve Chambers a Margaret Howells)

Yn aml mae mwsoglau, llyisiau'r afu a chen yn cael eu hanwybyddu, ond nid felly heddiw. Manteisiwch ar y cyfle i ddysgu mwy am yr organebau diddorol a darganfod y lleoedd anghyffredin lle maen nhw'n tyfu.

19:30 Beth yw cyfraniad Bioamrywiaeth i ni?

(Arweinig gan Drs Moore, John Warren a'r Athro Richard Marggraf Turley)

Crynoi'r canfyddiadau wrth i ni nesáu at ddiwedd gweithgareddau'r dydd. Y trefnwyr yn arwain dadl ar bwysigrwydd bioamrywiaeth. Oes gwir angen yr holl chwilod a'r chwain? A fyddai'r byd yn lle gwell heb wybed?

20:00 Ystlumod Wrth iddi Nosi (machlud haul am 20:50)

(Arweinir gan Annette Smith & Grŵp Ystlumod Gogledd Ceredigion)

Mwy o hwyl wrth chwilio am ystlumod!

22:00 Tylluanod a Chreaduriaid y Nos

(Arweinir gan Drs Pip Moore, John Warren a Katy Peat)

Gyda'r llinell derfyn mewn golwg, mae'n amser i ddod o hyd i ddraenogod ac i wrando am diwhit-twhŵ y gwddihŵ.

23:00 Mwy o Ddal Gwyfynod

(Arweinir gan Dr John Warren)

Bydd lampau anwedd arian byw sydd o amgylch gwahanol leoliadau ar y campws yn datgelu eu cynnwys nosol i unrhyw un sy'n dal yn gwmni i ni erbyn hyn!